

Love2Walk

Gŵyl Dwli ar Gerdded
Pen-y-bont ar Ogwr
2017



DYDD SADWRN 17 MEHEFIN
DYDD SUL 25 MEHEFIN 2017

www.love2walk.co.uk

Mae Gŵyl Dwlw ar Gerdded Pen-y-bont ar Ogwr yn dychwelyd ym mis Mehefin am 9 diwrnod o deithiau cerdded a phrofiadau awyr agored sy'n dangos Pen-y-bont ar Ogwr ar ei orau.

Cynhelir yr Ŵyl mewn partneriaeth â Fforwm Mynediad Lleol Pen-y-bont ar Ogwr rhwng dydd Sadwrn 17 a dydd Sul 25 Mehefin ac mae'r cyfan yn rhad ac AM DDIM.

Cyhoeddwyd rhaglen yr ŵyl yn ddiweddar ac mae mor amrywiol ag erioed. Cynhelir teithiau cerdded i deuluoedd a phlant, pobl sydd wrth eu boddau â hanes a naturiaethwyr, a bydd cyfle i bawb fwynhau profiadau newydd. Gall teuluoedd ymuno â'r Grŵp Shed Quarters ar gyfer yr Helfa Drysor i Dimoedd.



Dysgwch fwy am Hanes Cwm Llynfi neu ewch am dro drwy'r coed i gael cyfle i weld yr ystlumod sy'n byw yno. Bydd arbenigwyr lleol yn arwain llawer o'r teithiau cerdded felly gallwch ddisgwyl dysgu am y Fwrdeistref, ei hanes a byd natur.

Fel ag yn y blynyddoedd blaenorol, mae pob taith gerdded yn rhad ac am ddim, er y bydd angen cadw lle ymlaen llaw ar gyfer rhai ohonynt gan fod y lleoedd yn brin. Felly, gwnewch yn siŵr bod eich enw ar y rhestr.

● I gael rhagor o wybodaeth a gweld rhaglen y teithiau cerdded, ewch i

www.love2walk.co.uk, rhif ffôn 01656 642593 neu e-bost love2walk@bridgend.gov.uk

Croeso i Wyl Dwl ar Gerdded Pen-y-bont ar Ogwr 2017

Bydd arweinwyr profiadol a gwybodus ar bob un o'n teithiau cerdded ac mae pob taith yn rhad ac am ddim.

Cyngor pwysig

- Mae sanau ac esgidiau cyfforddus yn hanfodol, dewiswch esgidiau sy'n codi'r sawdl ychydig ac sy'n cefnogi pont y droed a gwnewch yn siŵr bod digon o le i chi symud bysedd eich traed
- Gwisgwch ddillad llac, cyfforddus sy'n eich galluogi i symud yn rhydd
- Bydd gwisgo sbectol haul ac eli haul yn diogelu eich llygaid a'ch croen rhag pelydrau UV yr haul
- Gall cerdded achosi syched felly dewch â digon o ddŵr, yn enwedig os ydych yn bwriadu cerdded am fwy na hanner awr
- Dewch â rhywbeth i'w fwyta gyda chi i sicrhau bod gennych ddigon o egni
- Dewch â'ch ffôn symudol gyda chi.

Sylwer bod cerddwyr yn cymryd rhan yn y teithiau cerdded ar eu risg eu hunain a dylent sicrhau eu bod yn ffit ac yn iach ar ddiwrnod y daith gerdded.

Lluniau

Mae'n bosibl y bydd ffotograffwyr proffesiynol neu amatur yn bresennol ar eich taith/teithiau. Ystyriwch eich bod wedi rhoi caniatâd i dynnu lluniau trwy ymuno â'r daith. Er hynny, mae croeso i chi ddweud ar y diwrnod wrth arweinydd eich taith neu'r ffotograffydd nad ydych yn dymuno ymddangos mewn unrhyw luniau. Mae'n bosibl y defnyddir lluniau ar wefannau neu'n rhan o ymgyrch gyhoeddusrwydd yn y dyfodol.

Canllaw Cyflym i'r Graddau

Hawdd – yn addas i bobl heb unrhyw broblemau ffitrwydd na symudedd difrifol, mae'n bosibl y bydd angen codi cadeiriau gwthio dros rwystrau bychain.

Cymedrol – Gallai gynnwys llwybrau serth a chefn gwlad agored. Esgidiau cerdded yn hanfodol.

Anodd – Mae'n rhaid bod yn gerddwr cefn gwlad profiadol gyda lefel dda o ffitrwydd.



P MAES PARCIO

P AR YR FFORDD

ALLWEDD SYMBOLAU

Gwisgwch esgidiau ymarfer corff

Addas ar gyfer cadeiriau gwthio

Parcio ceir

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid talu am barcio

Nodwch NA chaniateir cŵn ar unrhyw un o'r teithiau cerdded hyn.

Mae'r llwybrau i gyd yn gylchol ac yn gorffen yn y man cychwyn.

Y Cod Cefn Gwlad

Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch

Parchwch bobl eraill

- Ystyriwch y gymuned leol a phobl eraill sy'n mwynhau cefn gwlad
- Gadewch glwydi ac eiddo fel y gwnaethoch eu canfod a dilynwch lwybrau os nad oes mynediad lletach ar gael.

Diogelwch yr amgylchedd naturiol

- Peidiwch â gadael unrhyw olion o'ch ymweliad ac ewch â'ch sbwriel adref
- Cadwch gŵn dan reolaeth.

Mwynhewch yr awyr agored a gwnewch yn siŵr eich bod yn ddiogel

- Cynlluniwch ymlaen a byddwch yn barod am unrhyw beth annisgwyl
- Dilynwch gyngor ac arwyddion lleol.

Diolch i'r holl bobl sydd wedi gwirfoddoli eu hamser a'u harbenigedd i gynllunio a darparu'r wyl eleni.

1

**Clwb Adar
Morgannwg****Sadwrn 17 Mehefin****Amser Cychwyn** 9.00am**Pellter** O dan 3 milltir**Man cychwyn** Gwarchodfa Natur Cynffig
– cyfarfod yn y Ganolfan Ymwelwyr**Gorffen** Tua 11.00am**Gradd** Cymedrol
(llwybr tywodlyd)

Byddwn yn cyfarfod yng Nghanolfan y Warchodfa am 9am a dylech ddod â binocwlars gyda chi os oes rhai gennych. Taith gerdded gyda Clwb Adar Morgannwg i wylïo adar o amgylch Pwll Cynffig. Bydd y daith yn un araf er mwyn gwylïo adar.

Croeso i ddechreuwyr.

Cynghorir eich bod yn cadw lle ymlaen llaw

P MAES PARCIO

2

**Ffrwydro Ffromlys yn
Fferm Ochr Draw****Sadwrn 17 Mehefin****Amser Cychwyn** 10.00am**Pellter****Man cychwyn** Cyfarfod ym Maes Parcio Crochendy Ewenni**Gorffen** Tua 3.00pm**Gradd** Anodd

Dewch i helpu i dynnu ffromlys chwarennog ar lannau Afon Ewenni. I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 01656 642593.

P MAES PARCIO

3

**Taith Gerdded
Maesteg/Margam****Sadwrn 17 Mehefin****Amser Cychwyn** 11.00am**Pellter** 3.5 milltir**Man cychwyn** Cyfarfod ym Mharc Slip i ddal bws mini
i'r man cychwyn**Gorffen** Tua 1.30pm**Gradd** Anodd

Bydd y daith gerdded hon yn eich arwain ar daith i orffennol hynafol Pen-y-bont ar Ogwr. Eleni, rydym yn falch o groesawu Dr Edith Evans, Pennaeth Allgymorth Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent wrth i ni archwilio safleoedd ac anheddau hynafol ar y ffin rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot.

P AR YR FFORDD

4**Taith Gerdded y
Crwydwyr – Trelales****Sul 18 Mehefin****Amser Cychwyn** 9.30am**Pellter** 5.5 milltir**Man Cychwyn** Trelales**Gorffen****Gradd** Cymedrol

Mae Crwydwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn edrych ymlaen at gael eich croesawu ar eu taith gerdded.

Cysylltwch â'r arweinydd i gael rhagor o wybodaeth.

Malcom 01656 858812

5**Taith Gerdded y
Crwydwyr – Maesteg****Sul 18 Mehefin****Amser Cychwyn** 9.00am**Pellter** 11 milltir**Man Cychwyn** Maesteg**Gorffen****Gradd** Anodd

Mae Crwydwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn edrych ymlaen at gael eich croesawu ar eu taith gerdded.

Cysylltwch â'r arweinydd i gael rhagor o wybodaeth.

John 01656 858850

6**Taith Gerdded Garw 4****Sul 18 Mehefin****Amser Cychwyn** 1.00pm**Pellter** 3.5 milltir**Man Cychwyn** Y mynediad i Goedwig Garw Fechan**Gorffen** Tua 3.30pm**Gradd** Anodd

Mae Cwm Garw yn gyn gymuned lofaol rhwng llethrau Cwm Ogwr a Chwm Llynfi. Bydd y daith gerdded hon yn archwilio Cwm Garw Fechan, ei goetir tawel a'i gyfoeth o fywyd gwyllt. Mae'r daith gerdded hon yn heriol gyda rhai rhannau serth ac yn defnyddio cyfuniad o lwybrau coedwigaeth a hawliau tramwy.

Os ydych yn dymuno mwynhau'r llwybr hwn eich hun mae'r daflen Taith Gerdded Cwm Garw 4 ar gael i'w lawrlwytho.

P MAES PARCIO

7 Naddu a Cherdded

Llun 19 Mehefin

Amser Cychwyn 10.00am

Pellter O dan 3 milltir

Man Cychwyn The Court House, 4 Station St, Maesteg CF34 9AL

Gorffen 12.00pm

Gradd Hawdd

Awr ar y mwyaf y bydd y daith gerdded yn para, ond bydd y sesiwn yn dechrau gyda gweithdy i wneud eich ffon gerdded eich hun i'w defnyddio ar y daith a'i chadw!

Byddwn ni'n darparu: Y deunyddiau a chanllawiau ar gyfer gwneud eich ffon gerdded eich hun.



Byddwch chi'n dod ag: Eich hun a pharodrwydd i gael hwyl. Ewch i'n gwefan www.shedquarters.men i gael rhagor o fanylion.

Ynghylch:

Gwneud ffon gerdded o ddeunyddiau naturiol y byddwn yn dod o hyd iddynt a mwynhau taith gerdded a gwneud ffrindiau newyth ar hyd y llwybr.

Bydd ychydig o luniaeth ysgafn ar gael yn y lleoliad ond nid oes llawer o leoedd parcio ar gael gan ei bod yn ardal breswyl, felly rydym yn argymhell eich bod yn gadael eich cerbyd yn unrhyw un o'r meysydd parcio am ddim cyfagos. Mae'r manylion ar ein gwefan a nodir uchod. **MAE'N HANFODOL CADW LLE.**

8 Nant Llangrallo Bryn Glas

Llun 19 Mehefin

Amser Cychwyn 10.30am

Pellter O dan 3 milltir

Man Cychwyn Neuadd Goffa Williams, Y Ffordd Fawr, Llangrallo

Gorffen 11.30am

Gradd Cymedrol

Byddwn yn cerdded yr hawliau tramwy lleol gydag aelodau o Gyngor Cymuned Llangrallo yn rhan o'i wythnos llwybrau cerdded flynyddol. Bydd y daith gerdded hon yn cynnwys dolydd agored, coetir aeddfed i'r gogledd o'r pentref, gan roi golygfeydd o'r pentref cyfan o gyfeiriad y dwyrain.

Cofiwch ddod â'ch camera!



9 Arwerthiant Defaid Melin Ifan Ddu

Llun 19 Mehefin

Amser Cychwyn 11.00am

Pellter 3 milltir

Man Cychwyn Arwerthiant Defaid Melin Ifan Ddu

Gorffen 12.00pm

Gradd Cymedrol

Mae cerdded Nordig yn seiliedig ar ddefnyddio polion cerdded sydd wedi eu cynllunio'n arbennig mewn modd sy'n defnyddio pŵer rhan uchaf y corff i'ch gwthio ymlaen wrth i chi gerdded. Erbyn hyn, mae'n fodd cydnabyddedig o droi taith gerdded yn ymarfer ar gyfer y corff cyfan a gellir ei wneud gan unrhyw un yn unrhyw le. Darperir polion.



10

Canolfan Bywyd Ogwr – Taith Gerdded Nordig

Llun 19 Mehefin

Amser Cychwyn 3.30pm

Pellter 3 milltir

Man Cychwyn Yn cychwyn o Faes Parcio'r Ganolfan Hamdden

Gorffen 4.30pm

Gradd Cymedrol

Mae cerdded Nordig yn seiliedig ar ddefnyddio polion cerdded sydd wedi eu cynllunio'n arbennig mewn modd sy'n defnyddio pŵer rhan uchaf y corff i'ch gwthio ymlaen wrth i chi gerdded. Erbyn hyn, mae'n fodd cydnabyddedig o droi taith gerdded yn ymarfer ar gyfer y corff cyfan a gellir ei wneud gan unrhyw un yn unrhyw le. Darperir polion.



MAES PARCIO



11

Geogelcio i Ddechreuwyr Llun 19 Mehefin

Amser Cychwyn 4.00pm


Pellter O dan 3 milltir

Man Cychwyn Caeau Newbridge, ger Parc Chwarae y Plant

Gorffen 5.00pm

Gradd Hawdd

Mae geogelcio yn helpa drysor ar-lein fyd-eang. Dewch i ymuno yn yr hwyl a cheisio dod o hyd i drysor.

BCynghorir eich bod yn cadw lle ymlaen llaw.  MAES PARCIO



12

Taith Gerdded Tynnu Lluniau Straeon a Chwedlau (Grwpiau Ysgol)

I ddathlu Blwyddyn Chwedlau Cymru eleni, mae llyfrgelloedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymuno â Dwlu ar Gerdded a Pharc Bryngarw i gynnig cyfle i ysgolion cynradd gymryd rhan mewn taith gerdded gyffrous pryd y byddant yn clywed straeon ac yn tynnu lluniau o amgylch Parc Bryngarw. Bydd y dosbarthiadau yn cyfarfod yn y parc ac yn clywed storiwr yn adrodd straeon a chwedlau lleol cyn cymryd rhan mewn taith gerdded gydag arweinydd o amgylch y parc gan weld y cerfluniau ar hyd y ffordd. I orffen, ceir sesiwn tynnu lluniau dan arweiniad athro wedi ei ysbrydoli gan y straeon a'r daith gerdded. Darperir yr holl ddeunyddiau celf.

Mae'r sesiynau yn cael eu cynnig yn rhan o Wyl Gerdded Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 19 Mehefin.

Cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth.

13 Ffreutur Rheilffordd Tondu Mawrth 20 Mehefin

Cychwyn 3.30pm

Pellter 3 milltir

Man Cychwyn Maes Parcio Gorsaf Tondu

Gorffen 4.30pm

Gradd Cymedrol

Ymunwch ag arweinydd eich taith gerdded i archwilio'r hen reilffordd hon ar gylchdaith gan ddefnyddio llwybrau tarmac yn bennaf.

P MAES PARCIO

14 Taith Ystlumod

Mawrth 20 Mehefin

Cychwyn 9.30pm

Pellter O dan 3 milltir

Man Cychwyn Llyn Wilderness Porthcawl yn ymyl y cerflun o Geidwad y Llyn

Gorffen Tua 10.30pm

Gradd Hawdd

Er nad ydym yn gallu addo y byddwch yn gweld preswylwyr gyda'r nos y parc byddwch yn cyfarfod ag arweinydd gwybodus ac yn mynd am dro drwy Barc Wilderness, gan wrando am yr ystlumod.

P AR YR Ffordd

15 Llangrallo – Bryn Shelf Mercher 21 Mehefin

Cychwyn 10.30am

Pellter 3 milltir

Man Cychwyn Neuadd Goffa Williams, Y Ffordd Fawr, Llangrallo

Gorffen 11.30am

Gradd Cymedrol

Byddwch yn cerdded yr hawliau tramwy lleol gydag aelodau o Gyngor Cymuned Llangrallo yn rhan o'i wythnos Llwybrau Cerdded flynyddol. Bydd y daith gerdded hon yn dilyn Crib Gogleddol y pentref gyda golygfeydd trawiadol tuag at Fro Morgannwg. Dylech ddod â'ch camera ar y daith hon yn sicr.

P AR YR FFORDD

16 Cwm Garw– Taith Gerdded 1 Parc Calon Lan Mercher 21 Mehefin

Cychwyn 11.00am

Pellter 3.5 milltir

Man Cychwyn Parc Calon Lan Blaengarw

Gorffen Tua 12.30pm

Gradd Anodd

Bydd y gylchdaith hon yn cynnwys ochr orllewinol y cwm gan gychwyn a gorffen ym Mharc Calon Lân Blaengarw.

Mae Cwm Garw yn gyn gymuned lofaol rhwng llethrau Cwm Ogwr a Chwm Llynfi. Mae'r cwm yn cynnwys ucheldir Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn ymestyn tua 6 milltir i'r de gan godi'n serth tan ei fod yn cyrraedd mynyddoedd Carn a Werfa sy'n dominyddu rhan ogleddol y cwm, a elwir yn hanesyddol yn Gwm Rhyl ond bellach fe'i hadnabyddir yn gyffredin fel Garw Fechan.

P MAES PARCIO

17 Caeau Newbridge – Taith Gerdded Nordig Mercher 21 Mehefin

Cychwyn 1.00pm

Pellter 3 milltir

Man Cychwyn Caeau Newbridge, ger Parc Chwarae y Plant

Gorffen 2.00pm

Gradd Cymedrol

Mae cerdded Nordig yn seiliedig ar ddefnyddio polion cerdded sydd wedi eu cynllunio'n arbennig mewn modd sy'n defnyddio pŵer rhan uchaf y corff i'ch gwthio ymlaen wrth i chi gerdded. Erbyn hyn, mae'n fodd cydnabyddedig o droi taith gerdded yn ymarfer ar gyfer y corff cyfan a gellir ei wneud gan unrhyw un yn unrhyw le. Darperir polion.

P MAES PARCIO



18**Taith Gerdded y Crwydwyr - Parc Slip****Mercher 21 Mehefin****Cychwyn** 6.15pm**Pellter****Man Cychwyn** Parc Slip, Visitor Centre Car Park**Gorffen****Gradd** Cymedrol

Mae Crwydwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn edrych ymlaen at gael eich croesawu ar eu taith gerdded.

Cysylltwch â'r arweinydd i gael rhagor o wybodaeth.

Terry 01656 662360

P MAES PARCIO

**19****Taith Gerdded Llangrallo– Rhostir Treoes****Iau 22 Mehefin****Cychwyn** 10.30am**Pellter** 3 milltir**Man Cychwyn** Neuadd Goffa Williams, Y Ffordd Fawr**Gorffen** 11.30am**Gradd** Hawdd

Byddwn yn cerdded yr hawliau tramwy lleol gydag aelodau o Gyngor Cymuned Llangrallo yn rhan o'i Wythnos Llwybrau Cerdded flynyddol. Bydd y daith gerdded hon yn dilyn yr hen ffordd nas defnyddir erbyn hyn i'r pentref ac yn dychwelyd i'r eglwys ar draws rhostir agored.

P AR YR FFORDD

20**Cylchdaith Sarn****Iau 22 Mehefin****Cychwyn** 11.00am**Pellter** 3 milltir**Man Cychwyn** Cyfarfod yn McArthur Glen - Cylchdaith**Gorffen** 12.00pm**Gradd** Cymedrol

Ymunwch â'r grŵp cyfeillgar o fenywod sy'n cerdded yn rheolaidd ar ddydd Iau ar yr adeg hon wrth iddynt fynd ar gylchdaith hamddenol o amgylch ardal Sarn.

P MAES PARCIO

21**Taith Gerdded Iechyd y Felin
Wyllt Y Ganolfan Gymunedol****Iau 22 Mehefin****Cychwyn** 12.00pm**Pellter** 3 milltir**Man Cychwyn** Taith Gerdded Iechyd y Felin Wyllt
Y Ganolfan Gymunedol**Gorffen** 1.00pm**Gradd** Cymedrol

Cerdded yw un o'r mathau mwyaf naturiol a syml o symud ac mae'n ymarfer corff cyffredinol gwych. Nid oes angen unrhyw offer arbennig arnoch a gallwch ei wneud ble bynnag yr ydych. Mae'n rhoi mwy o egni i chi, yn llosgi calorïau ac mae'n rhad ac am ddim. Mae'r holl daith gerdded ar arwynebau tarmac ac mae'n addas i bawb.

P MAES PARCIO**22****Caeau Newbridge
Taith Gerdded Nordig
i Ddechreuwr****Iau 22 Mehefin****Cychwyn** 12.30pm**Pellter** 3 milltir**Man Cychwyn** ger Parc Chwarae y Plant**Gorffen** 1.30pm**Gradd** Cymedrol

Mae cerdded Nordig yn seiliedig ar ddefnyddio polion cerdded sydd wedi eu cynllunio'n arbennig mewn modd sy'n defnyddio pŵer rhan uchaf y corff i'ch gwthio ymlaen wrth i chi gerdded. Erbyn hyn, mae'n fodd cydnabyddedig o droi taith gerdded yn ymarfer ar gyfer y corff cyfan a gellir ei wneud gan unrhyw un yn unrhyw le. Darperir polion. Cynghorir eich bod yn cadw lle ymlaen llaw.

P MAES PARCIO**23****Chwedlau Marchogion
Morgannwg****Iau 22 Mehefin****Cychwyn** 2.00pm**Pellter** 4 milltir**Man Cychwyn** Canolfan Hanes Teulu Tŷ'r Ardd**Gorffen****Gradd** Cymedrol

Ymunwch â Llyfrgellydd Hanes Teulu Pen-y-bont ar Ogwr, John Dunkley-Williams, ar daith â golygfeydd i un o safleoedd cestyll hanesyddol Pen-y-bont ar Ogwr, i ddysgu am hanes sefydlu anheddau ym Morgannwg, a chwedl y deuddeg Marchog a orchfygodd ac a fu'n teyrnasu dros Dde Cymru o'r 12fed Ganrif.

P MAES PARCIO

Cychwyn 10.00am

Pellter 0 dan 3 milltir

Man Cychwyn Canolfan Chwaraeon Maesteg

Gorffen 12.00pm

Gradd Cymedrol

(Ap VoiceMaps - GPS ar gyfer lleoliad a sain)

Hanner awr ar y mwyaf y bydd y daith yn para, ond ceir hefyd arddangosfa trefnadaeth ddiwydiannol gan Gymdeithas Hanes Cwm Llynfi, arddangosfa ryngweithiol Men At The Centre gan ShedQuarters ac arddangosfa gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn Llyfrgell Llynfi (lleoliad dechrau a diwedd y daith gerdded).

Lleoliad Dechrau a Diwedd: Canolfan Chwaraeon Maesteg, Safle Old Forge (Llyfrgell Llynfi).



Llwybr: O amgylch Ysgol Gyfun Maesteg, ond parciwch yn TESCO a chyfarfod yn y lleoliad dechrau a diwedd.

Byddwn ni'n Darparu: Cymorth technegol i lawrlwytho a gweithredu'r ap VoiceMaps am ddim.

Byddwch chi'n dod â: Ffôn clyfar (iOS neu Android) gyda mynediad at ddata rhyngwyd a chlustffonau sy'n cyd-fynd â'r ffôn.

Ewch i'n gwefan www.shedquarters.men i gael manylion sut i lawrlwytho'r ap ac ati.

Ynghylch:

Mae'r daith hon yn canolbwyntio ar ardal Ysgol Gyfun Maesteg, safle cyn Ganolfan Hyfforddi Maesteg. Bydd yr ap VoiceMaps yn galluogi'r bobl sy'n cymryd rhan i fynd at arweiniad digidol sy'n rhoi gwybodaeth am dreftadaeth ddiwydiannol yr ardal, wedi ei ddarparu mewn modd creadigol i wella'r profiad cerdded.

Ar ôl y daith gerdded byddwch yn mynd yn ôl i Ganolfan Chwaraeon Maesteg lle y gallwch fwynhau tair arddangosfa a rhywfaint o luniaeth ysgafn.

Trefn y Daith:

10.00am - 11.00am - Canolfan Chwaraeon Maesteg (Llyfrgell Llynfi i fyny'r grisiau).

Briffio i lawr y grisiau gan gynnwys cymorth technegol a WIFI am ddim i lawrlwytho'r ap.

11.00am - 12.00pm (amser brasgywir) Taith Gerdded

Bydd yr holl gerddwyr yn mynd i leoliad cychwyn y daith gerdded sain digidol a arweinir gan ShedQuarters. Cyn gynted ag y byddwch yn cyrraedd y lleoliad cewch gyfarwyddyd i agor yr ap.

Cewch gerdded, a phrofi'r ap, ar eich cyflymder eich hun mynd yn ôl i'r lleoliad cychwyn pan fyddwch wedi gorffen.

Rydym yn dymuno diolch yn arbennig i Lyfrgell Llynfi (Awen) am ddarparu'r lleoliad a'r wifi, Dan Lock Heritage Interpretations, Roy Meredith a Chyfoeth Naturiol Cymru.

25**Tŷ St John/ Tref Pen-y-bont
ar Ogwr****Sadwrn 24 Mehefin****Cychwyn** 1.00pm**Pellter** O dan 3 milltir**Man Cychwyn** Canolfan Hanes Teulu Tŷ'r Ardd**Gorffen** 2.00pm yn ogystal ag amser **Gradd** Cymedrol
i ymweld â'r tŷ

Cyfle i glywed am hanes diddorol iawn tref farchnad Pen-y-bont ar Ogwr gyda staff o Ganolfan Hanes Teulu Tŷ'r Ardd, Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd y daith yn gadael y Ganolfan ac yn dod i ben gyda thaith o amgylch Tŷ St John yn Newcastle Hill yn ystod ei diwrnod agored misol.

Ewch i www.stjohns-bridgend.org.uk i gael rhagor o wybodaeth www.stjohns-bridgend.org.uk

P MAES PARCIO**26****Blodau ar Gomin Lock****Sadwrn 24 Mehefin****Cychwyn** 2.00pm**Pellter** 3 milltir**Man Cychwyn** Gorsaf Bad Achub Bae Rest**Gorffen** 3.30pm **Gradd** Hawdd

Dewch i weld y fandon fechan a bresych y cŵn ymhlith amrywiaeth eang o blanhigion ac astudiwch y planhigion sy'n blodeuo yn y cynefin calchfaen prin hwn.

Cychwyn 10.00am**Pellter 3 milltir****Man Cychwyn Y Sawyers Arms. Maesteg CF34 9DF****Gorffen 2.00pm****Gradd Cymedrol**

Byddwch chi'n dod ag: O leiaf un ffôn clyfar gyda mynediad at ddata rhyngwyd (iOS neu Android) a chlustffonau sy'n cyd-fynd â'r ffôn fesul tîm gyda'r ap Aurasma eisoes wedi'i lawrlwytho yn ddelfrydol.

Ewch i'n gwefan**www.shedquarters.com****i gael manylion sut i lawrlwytho'r ap ac ati.****Ynghylch:**

Mae ein helfa drysor wedi'i fodelu ar y traddodiad poblogaidd o gynnal helfa drysor mewn ceir lle bydd timau yn cychwyn yn eu ceir i ddod o hyd i eitemau, enwau strydoedd ac ati a'r cyfan yn dod i ben yn y dafarn lle y bydd gweddill y cwis yn cael ei gynnal dros bryd o fwyd a diod, ond mae dau wahaniaeth sylweddol a chyffrous i'n helfa drysor ni sef:

1. Mae'r helfa drysor ar droed i dimau yn hytrach na mewn ceir.
2. Bydd pob tîm yn penodi person â ffôn clyfar a bydd angen iddo lawrlwytho'r ap Aurasma am ddim y mae ei angen i weld fideos byr sydd wedi eu tagio yn ddigidol i adeileddau pensaernïol go iawn o gwmpas Canol Tref Maesteg.

Byddwn yn rhoi dalenni cliwiau i chi, ynghyd â chymorth technegol i lawrlwytho'r ap os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, ond mae'n ofynnol bod gennych berson penodedig yn y grŵp sydd â ffôn symudol ar gyfer hyn.

Bydd angen prynu bwyd a diodydd yn y lleoliad, ond rydym yn croesawu unrhyw gyfraniadau mawr neu fach i ShedQuarters gan ein bod yn grŵp sy'n ceisio darparu gweithgareddau cymdeithasol ac ymarferol ar gyfer dynion yr ardal.

Rydym yn dymuno diolch yn arbennig i'r Sawyers Arms (Wetherspoons) am roi lleoliad gwych i ni ar gyfer y daith gerdded, sy'n cynnwys gwasanaeth cyfeillgar a wif i am ddim.

Cychwyn 2.00pm**Pellter** 3 milltir**Man Cychwyn** Canolfan Ymwelwyr Parc Slip**Gorffen** 3.30pm**Gradd** Hawdd

Mae dolydd blodau gwyllt yn lleihau ac ychydig iawn ohonynt sydd ar ôl bellach yn y DU. Ymunwch â ni ar Ddiwrnod Blodau Gwyllt Cymru i grwydro drwy'r dolydd blodau gwyllt ym Mharc Slip a'n helpu ni i gofnodi'r pili-palas, y gwenyn a'r bywyd gwyllt y byddwn yn eu gweld.

Argymhellir eich bod yn cyfrannu £2 a fydd yn mynd tuag at waith cadwraeth bywyd gwyllt yr Ymddiriedolaeth.

P MAES PARCIO

Er mai dim ond am 9 diwrnod mae'r Wyl yn parhau, rydym yn credu mai cerdded yw'r ffordd orau i archwilio Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae teithiau cerdded rheolaidd yn digwydd gydol y flwyddyn mewn partneriaeth â'r Crwydwyr, Age Cymru a Dewch i Gerdded. Gellir gweld ein rhaglen chwarterol yn adran lawrlwytho ein gwefan www.love2walk.co.uk lle gallwch hefyd gael ysbrydoliaeth ynglŷn â ble i gerdded yn yr ardal leol, felly ewch allan i archwilio.

Cyrraedd yr ŵyl

Sut bynnag yr ydych yn bwriadu cyrraedd manau cychwyn ein teithiau cerdded, gall Traveline Cymru hwyluso eich cynlluniau gyda gwybodaeth ynglŷn â theithio ar fysiau a threnau, awyren neu long fferi. Ewch i www.traveline-cymru.info neu ffoniwch **0871 200 22 33**.

Sut i gadw lle

Nodwch fod pob taith cerdded yn rhad ac am ddim.

Nodir amseroedd gorffen fel canllaw yn unig.

Mae rhai o'n teithiau yn mynnu neu'n argymhell eich bod yn cadw eich lle ymlaen llaw.

Mae sawl ffordd o wneud hyn:

Anfonwch e-bost i love2walk@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 642593.

Bydd gwasanaeth peiriant ateb ar gael y tu allan i oriau swyddfa rhwng 17 Mehefin a 25 Mehefin 2017.



www.facebook.com/love2walk



[@love2walkwales](https://twitter.com/love2walkwales)

www.love2walk.co.uk

Archwiliwch Gefn Gwlad Pen-y-bont ar Ogwr

Beth am fynd am dro yn y wlad hardd sydd ar garreg eich drws? Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal rhwydwaith o dros 650 Km o hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau beicio oddi ar y ffyrdd sy'n eich galluogi i fwynhau cefn gwlad godidog ac arfordir bendigedig. Mae ar gael i bawb, yn hawdd mynd ato, yn rhad ac am ddim, ac yno'n disgwyl amdanoch.



Mae'r tîm Hawliau Tramwy hefyd yn hyrwyddo llwybrau cerdded, beicio a marchogaeth yn yr ardal, sy'n amrywio o deithiau cylchol byr o gwmpas pentrefi hyd at lwybrau hwy fel rhan Pen-y-bont ar Ogwr o Lwybr Arfordir Cymru.

Yn ystod y 7 mlynedd ddiwethaf, derbyniwyd dros £400,000 o grantiau oddi wrth Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Gwnaed gwelliannau i arwynebau llwybrau troed a llwybrau marchogaeth a chafodd gatiâu, pontydd a chyfleusterau eraill a gynlluniwyd i wella hygyrchedd eu hatgyweirio neu eu hadnewyddu.



Proseswyd Gorchmynion a fydd yn diwygio'r Map Diffiniol. Mae ymchwil hanesyddol a thrafodaethau â defnyddwyr a pherchenogion tir hefyd yn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau am Orchmynion Addasu Mapiau Diffiniol.

I gael copi o'r taflenni, sydd ar gael am ddim, neu i drafod unrhyw faterion ynglŷn â hawliau tramwy cyhoeddus ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ffoniwch y tîm ar 01656 642537/642553 neu anfonwch

e-bost at: rightsofway@bridgend.gov.uk





Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Mae'r Ddeddf hon yn gosod gofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i fapio a chynllunio llwybrau addas ar gyfer teithio llesol, sydd yn golygu cerdded a beicio yn hytrach na defnyddio cerbydau modur ar gyfer teithiau byrion bob dydd. Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd wella eu seilwaith ar gyfer cerdded a beicio bob blwyddyn.

Erbyn 3 Tachwedd eleni, bydd yn rhaid i'r Cyngor ddarparu Mapiau Rhwydwaith Integredig sy'n nodi cynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer datblygu rhwydwaith o lwybrau a chyfleusterau llwybrau teithio llesol dros y 15 mlynedd nesaf. Yn rhan o'r broses honno, bydd y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad yn yr haf i ofyn am eich barn ar y cynigion. I gael rhagor o wybodaeth chwiliwch am Teithio Llesol ar wefan y Cyngor yn www.bridgend.gov.uk.

Gŵyl Dwli ar Gerdded Pen-y-bont ar Ogwr 2017



DYDD SADWRN 17 MEHEFIN
DYDD SUL 25 MEHEFIN 2017

Love2Walk



www.facebook.com/love2walk



[love2walkwales](https://twitter.com/love2walkwales)

www.love2walk.co.uk